



Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ffôn: 01267 610400

Y Llwyfan

E-bost: gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Heol y Coleg

Gwefan: www.colegcymraeg.ac.uk

Caerfyrddin

SA31 3EQ

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Trwy e-bost: SeneddDiwylliant@senedd.cymru

21 Medi 2021

Annwyl Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor

Ymgynghoriad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y blaenoriaethau ar gyfer y chweched Senedd

Hoffwn gyflwyno ymateb ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) i gais y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch y materion y dylai'r pwyllgor eu blaenoriaethu wrth gynllunio'i raglen waith.

Bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar y prif ffactorau sy'n ymwneud â chylch gwaith y Coleg sy'n effeithio ar strategaeth iaith Llywodraeth Cymru i greu miliwn o bobl sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050. Mae gwaith y Coleg yn y sector ôl-orfodol, sy'n cynnwys addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch, yn cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion strategaeth iaith y Llywodraeth ac mae potensial i'r Coleg wneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy sylweddol dros y bum mlynedd nesaf o dderbyn y gefnogaeth a'r buddsoddiad angenrheidiol.

Cymraeg 2050: cynllun newydd y Llywodraeth ar gyfer 2021-26

Mae'r Coleg wedi croesawu'r [cynllun newydd](#) a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn mis Gorffennaf eleni sy'n amlinellu'r hyn fydd y Llywodraeth yn ei wneud yn ystod 2021-26 i wireddu miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Mae'r gydnabyddiaeth oddi fewn i'r ddogfen i rôl allweddol y sector ôl-orfodol a'r ffaith bod y Coleg yn bartner creiddiol i'r Llywodraeth i'w croesawu yn fawr iawn.

- [Hyfforddi athrawon Cymraeg](#)

O ystyried pwysigrwydd sicrhau cyflenwad digonol o athrawon i'r strategaeth iaith, mae'r prinder o dros 300 o athrawon cynradd a 500 o athrawon uwchradd yn destun pryder mawr i'r Coleg a nifer o unigolion a sefydliadau eraill gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith ac UCAC. Tra bod cynllun newydd y Llywodraeth yn cydnabod bod sicrhau cyflenwad digonol wedi bod yn her, nid yw'r Coleg yn hyderus bod yr ymyraethau sydd mewn lle ar hyn o bryd yn ddigon i weddnewid y sefyllfa.

Croesawn yn fawr iawn gyfeiriad at y ffaith bod y Llywodraeth yn datblygu cynllun 10-mlynedd ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg a gwella sgiliau ieithyddol y gweithlu addysg er mwyn gallu diwallu anghenion lleol pob sir yn unol â'u CSGAau. Er na chyhoeddwyd manylion pellach ar hyn eto, mae'r cyfeiriad at "ehangu rôl y Coleg" i'w groesawu. Cyflwynwyd sawl papur i'r Llywodraeth dros y deunaw mis diwethaf ynglŷn â'n pryderon am y maes hyfforddi athrawon a'n deisyfiad i dderbyn rôl mwy sylweddol wrth gynllunio ar gyfer hyfforddi athrawon Cymraeg. Rydym wrthi'n trafod gyda'r Llywodraeth sut y mae modd datblygu'n cyfrifoldebau yn y maes hwn gan fod gennym y profiad, yr arbenigedd a'r ewyllys i'w cefnogi nhw a Chyngor y

Gweithlu Addysg wrth iddynt weithredu eu dyletswyddau statudol yn y maes. Tra'n parhau i fod yn awyddus i dderbyn rôl cynllunio mwy eang ac arweiniol yn y maes, byddwn yn cyflwyno cais i'r Llywodraeth am gyllideb o £150,000 i weithredu dau brosiect penodol yn ystod 2022-23 bydd yn cyfrannu at ei strategaeth i ddenu a chefnogi mwy o fyfyrwyr i gymhwyso fel athrawon cyfrwng Cymraeg

- [Bil Addysg Gymraeg](#)

Edrychwn ymlaen at gynnal trafodaethau maes o law gyda'r Llywodraeth ynglŷn â'r Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg a materion yn gysylltiedig â'r Coleg.

- [Cyllideb y Coleg](#)

Datblygiad arall i'w groesawu yn fawr iawn yng nghynllun newydd y Llywodraeth ydy'r ymrwymiad i ddarparu cyllid ychwanegol dros bum mlynedd i'r Coleg er mwyn ehangu darpariaeth addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch.

Cyllideb fach iawn sydd wedi bod gan y Coleg i weithredu yn y maes ôl-16 hyd yn hyn, ac mae angen dybryd i fuddsoddi yn y maes os ydym o ddifri am weld newid ar lawr gwlad lle nad oes traddodiad o ddysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Daeth y Llywodraeth o hyd i £810,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 er mwyn cychwyn ar y gwaith o gynyddu nifer y staff a'r tiwtoriaid sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn y colegau yn y meysydd blaenoriaeth, sef iechyd a gofal, gwasanaethau cyhoeddus a gofal plant. Croesawyd y cyllid ychwanegol ar gyfer colegau addysg bellach, ond er mwyn gallu parhau i fuddsoddi yn y meysydd hyn, ymestyn i feysydd eraill megis amaeth, twristiaeth a hamdden, adeiladwaith, busnes a chelfyddydau perfformio, a datblygu prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog, bydd y Coleg yn cyflwyno cais i'r Llywodraeth am gyllideb ychwanegol o £1,090,000 ar gyfer y sector ôl-16 yn ystod 2022-23 (£590,000 ychwanegol ar gyfer addysg bellach a £500,000 ar gyfer prentisiaethau).

Mae'r Coleg wedi bod yn weithredol yn y maes addysg uwch ers degawd ac mae sefyllfa'r Gymraeg yn y sector wedi ei drawsnewid o ganlyniad. Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael i fyfyrwyr bellach yn eang ac mae nifer y darlithwyr sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr oedd yn astudio rhan o'u gradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod pum mlynedd cyntaf y Coleg ond yn dilyn toriad yn y gyllideb yn 2016, a chynnydd yn y nifer o fyfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio mewn prifysgolion tu allan i Gymru, ni welwyd yr un cynnydd ers hynny. Mae'r Coleg o'r farn bod modd denu cynulleidfaoedd newydd at y Gymraeg yn y sector addysg uwch ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynlluniau cyffrous i'r perwyl hwnnw. O ganlyniad i sefyllfa ariannol heriol y prifysgolion, bydd buddsoddiad ychwanegol gan y Llywodraeth yn allweddol er mwyn cyflawni'r cynnydd ac, ar yr un pryd, gwarchod y pynciau a'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog sydd eisoes yn bodoli. Byddwn yn cyflwyno cais am gyllideb ychwanegol o £213,168 i'r Llywodraeth ar gyfer 2022-23 er mwyn gweithredu ein cynlluniau addysg uwch.

- [Datblygu gweithlu iechyd a gofal dwyieithog](#)

Mae'r [gwerthusiad](#) a gyhoeddwyd yr wythnos hon o *Mwy na Geiriau* (strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol) yn tanlinellu maint yr her sy'n wynebu'r Llywodraeth a'r Byrddau Iechyd os am sicrhau

bod gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddidramgwydd yn eu dewis iaith. Tra bod yr adroddiad yn dangos bod rhywfaint o gynnydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r strategaeth yn 2012, yn enwedig yn y maes addysg uwch o ganlyniad i fuddsoddiad gan y Coleg Cymraeg, mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod angen cryn dipyn o waith a ffocws yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn gwireddu'r saith nod gwreiddiol.

Mae Byrddau Iechyd ar draws Cymru yn adrodd bod recriwtio gweithlu dwyieithog yn her ac felly mae datblygu rhagor o gyfleoedd hyfforddi dwyieithog yn y sector ôl-16 a'r sector addysg uwch yn flaenoriaeth i'r Coleg dros y blynyddoedd i ddod.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC/HEIW) yw'r corff sy'n gyfrifol am gynllunio a datblygu gweithlu'r GIG yng Nghymru ac mae ganddo gyllideb sylweddol at y pwrpas hwn. Mae'r Coleg yn cydweithio gydag AaGIC, ond dymuna'r Coleg sefydlu perthynas strategol gydag AaGIC er mwyn cytuno ar dargedau a nodau addas a datblygu cynlluniau pwrpasol i gynyddu sgiliau Cymraeg a dwyieithog gweithlu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Dymuna'r Coleg weld cynllun o'r fath yn cynnwys ymrwymiad i gynnwys ymwybyddiaeth iaith fel rhan greiddiol a safonol o hyfforddiant pob darpar ymarferydd iechyd a gofal yng Nghymru a thargedau clir yn cael eu gosod o ran y nifer o hyfforddeion fydd yn cofrestru ar ddarpariaeth dwyieithog ar draws yr holl gyrsiau iechyd bob blwyddyn. Byddai angen i AaGIC adnabod cyllideb addas i gefnogi prifysgolion gyflawni hyn. Mae hyn yn gweddu i [Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal](#) gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020.

- [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#)

Roedd y Coleg yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft yn ystod y pumed Senedd. Mae sicrhau bod y corff newydd, yn ogystal â'r sector ôl-orfodol gyfan, yn ymrwmo i gydweithio gyda'r Coleg mewn modd effeithiol a strategol er mwyn cefnogi'r nod o gynyddu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn allweddol. O'i sefydlu mewn modd addas, mae'r Comisiwn arfaethedig yn cynnig cyfle ar gyfer sicrhau hyn ac ategwyd y pwyntiau hyn yn yr [ymatebion a dderbyniwyd](#) i'r ymgynghoriad ar y bil drafft.

Rydym wedi cadw ein sylwadau yn eithaf cryno a chyffredinol yn y llythyr hwn ond datblygwyd dogfen fanifesto cyn yr etholiad sy'n manylu ar ein hargymhellion polisi a chyllido ar gyfer y Llywodraeth newydd ac mae modd dod o hyd iddi ar ein [gwefan](#).

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno ymateb y Coleg i'r ymgynghoriad pwysig hwn. Byddai'r Coleg yn barod iawn i ddarparu rhagor o wybodaeth i chi ar y materion a amlinellwyd yn ein llythyr ac mae croeso i chi gysylltu â Gwenllian Griffiths ar g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk.

Yn gywir,



Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr